TASG 1 : DADANSODDI / TRAFOD

Mae'n amlwg bod y bachgen yn y gerdd yn awyddus iawn i blesio'i dad.

a) Pam y tybiwch ei fod mor awyddus i wneud hynny?

b) Pa esiamplau o ymdrechion y bachgen i blesio sydd yn y gerdd?

TASG 2 : DADANSODDI / TRAFOD

Nid yw'r pennill olaf yn esbonio pam mae'r bachgen 'ar ei ben ei hun' yn y parc.
A oes unrhyw awgrymiadau yn gynharach yn y gerdd pam mai dyma'r sefyllfa?
Neu, a oes gennych chi unrhyw esboniadau posib?
Yn eich atebion, ceisiwch gyfuno dychymyg a thystiolaeth.

TASG 3 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch fod y bachgen yn mynd adref o'r parc yn ddigalon. Ar ei gyfrifiadur mae neges e-bost gan ei dad yn esbonio'i absenoldeb.

Ysgrifennwch y neges e-bost honno (100 o eiriau) ac wrth gynnig eich esboniad, ceisiwch hefyd awgrymu pa fath o berthynas sydd rhwng y tad a'r mab.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch fod y bachgen yn cadw dyddiadur cyfrinachol. Yn y dyddiadur hwnnw mae'n storio'i feddyliau mwyaf personol a phreifat.
Ysgrifennwch ei gofnod dyddiadur ar gyfer y diwrnod siomedig hwn yn ei hanes.